
Cymru a Gorllewin Lloegr

NetworkRail

# Ein cynllun cyflenwi ar gyfer Cymru a Gorllewin Lloegr



**Cyfnod Rheoli 7**
Diweddariad
Blwyddyn tri

# Rhagair

**Ein diben yw cyflenwi'r rheilffordd orau a mwyaf diogel i'n teithwyr, defnyddwyr trenau cludo nwyddau, ein cymunedau lleol a rhanddeiliaid. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn destun balchder mawr inni.**

Yn ystod fy nhri mis cyntaf fel rheolwr gyfarwyddwr rhanbarthol Cymru a Gorllewin Lloegr, rydw i wedi cael fy nharo gan y balchder sydd gan ein pobl yn eu gwaith. Wrth inni gychwyn ar gyfnod o newid sylweddol i'n diwydiant, mae'r rhanbarth eisoes wedi dangos ei allu i ddatblygu. Wedi cyfnod o adfer, rydym wedi ailadeiladu sefydlogrwydd, a bellach rydym yn darparu dibynadwyedd i'n cwsmeriaid sy'n dibynnu arnom ddydd ar ôl dydd.

Cafodd y cynnydd hwn ei ysgogi gan newidiadau strwythurol i'n model gweithredu, buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu, gan gynnwys Prosiect Project Brunel, a chanolbwyntio'n ddygn ar wella'n barhaus.

Ond mae gwaith i'w wneud o hyd i gyrraedd y lefelau perfformiad y mae ein cwsmeriaid yn disgwyl gennym. Yr hyn sydd o'r pwys pennaf imi yw ein bod ni'n parhau i adeiladu rheilffordd sy'n gynaliadwy, yn gydnerth ac yn addas i genedlaethau'r dyfodol.

I gefnogi hyn rydym wedi lansio rhaglen o ddatganoli pellach ar ein llwybrau. Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol yn y broses barhaus o ddatblygu ein model gweithredu. Mae'n symud mwy o allu, atebolrwydd ac awdurdod i wneud penderfyniadau'n agosach i'r timau sy'n rhedeg ein rheilffordd bob dydd. Mae hefyd yn cynrychioli cam pwysig yn y gwaith o baratoi'r rhanbarth ar gyfer integreiddio'r traciau a'r trenau, gydag aliniad strwythurol a gweithredol wrth inni baratoi i'r dyfodol.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio'n agos ar gyflawni ein targedau ariannol a'n cynllun effeithlonrwydd. Trwy waith rheoli gofalus, rydym yn rheoli'n gwariant o fewn ein hamlen ariannol benodol. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar yr heriau sy'n wynebu rhai o'n prosiectau seilwaith, a'r gwaith gwella yn Botley Road yn Rhydychen yn bennaf.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- **Cyflawni'n ddiogel gwelliannau i berfformiad gwasanaethau trên i'n teithwyr a'n cwsmeriaid cludo nwyddau** trwy gydweithredu'n agosach â'n cydweithwyr yn y cwmnïau trenau i deithwyr a threnau cludo nwyddau
- **Parhau i ddatblygu gwaith integreiddio'r trac a threnau,** gan sefydlu seiliau cryf ar gyfer Great British Railways (GBR) trwy gryfhau'r broses o ddatganoli llwybrau
- **Cyflawni gwelliannau ledled ein rhwydwaith** sy'n cefnogi twf economaidd
- **Cryfhau ein diwylliant o ddiogelwch corfforol a seicolegol,** gan alluogi'n pobl i gyflawni eu gwaith gorau.

Rwyf yn hynod o falch o'r hyn a gyflawnwyd gan dîm Cymru a Gorllewin Lloegr. Mae'n ganlyniad o'u proffesiynoldeb, balchder ac ymrwymiad ledled y rhanbarth, wrth iddynt fynd cam ymhellach yn gyson i gadw ein rheilffordd yn symud. Ar yr un pryd, rwyf fi a'm tîm yn ymwybodol iawn o'r gwaith sydd gennym i'w wneud o hyd.

Yr hyn a welaf ar draws rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr yw tîm ymroddedig a galluog sy’n barod i wynebu’r heriau sydd o’n blaenau.



**Mark Killick**
Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol Dros Dro, Cymru a Gorllewin Lloegr



# Tabl cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | 2 |
| **Cynnwys** | 4 |
| **Ein cynllun ar gyfer 2024-29 ar dudalen** | 5 |
| **Cyflwyniad i'r ddogfen hon** | 6 |
| **Ein gweledigaeth a'n strategaeth** | 8 |
| **Ein hincwm a'n gwariant** | 24 |
| **Risgiau, ansicrwydd a chyfleoedd** | 28 |
| **Gwaith cyflenwi yn ystod y flwyddyn nesaf (2026/27)** | 30 |
| **Atodiad** | 32 |





*Y trên "Inspiration" yng ngorsaf Paddington yn lansiad ymgyrch Railway 200 ym mis Mehefin 2025*
*Llun: Jack Boskett a Railway 200*

# Ein cynllun o 2024 i 2029 ar dudalen

**5,295**
o gydweithwyr

yn cyflenwi
**3,540**
o wasanaethau i deithwyr a threnau nwyddau bob dydd

gan symud
**174.7m**
o deithwyr

a
**26m**
o dunelli o nwyddau bob blwyddyn

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, byddwn yn buddsoddi **£5.3bn** i weithredu, cynnal ac adnewyddu ein rheilffordd, gan gyflawni:

**Diogelwch**
- 30% – Gwelliant o 30 % yn niogelwch y gweithlu

**Cyflenwi gwasanaethau trên**
- 5% – Gwelliant o 5 % yn nifer y trenau sydd ar amser
- 25% – yn llai o drenau i deithwyr yn cael eu canslo
- 52% – yn llai o drenau nwyddau'n cael eu canslo
- 0.8% – yn fwy o wasanaethau nwyddau

**Cwsmeriaid a chymunedau**
- 7% – o welliant ym moddhad teithwyr

**Effeithiolrwydd**
- £531m – yn llai o gost

**Twf cynaliadwy**
- 21% – yn llai o allyriadau carbon
- 4% – Gwella bioamrywiaeth 4 %

**Pobl**
- 23% – o welliant yn ein hymgysylltu â chydweithwyr

# Cyflwyniad i'r ddogfen hon

## Pwrpas a chefndir

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddasom ein Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cyfnod Rheoli 7. Roedd y ddogfen yn nodi'r gweithgareddau, allbynnau a gwariant a fwriadwyd gennym ar gyfer gweithredu, cynnal ac adnewyddu ein seilwaith rheilffordd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2029.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaethom yn cyflawni Cynllun Cyflenwi Cyfnod 7. Mae'n rhoi trosolwg o'n cynllun a ddiweddarwyd ar gyfer blynyddoedd 3-5 Cyfnod Rheoli 7, gan nodi'n glir unrhyw newidiadau allweddol o gymharu â'n cynllun cyflenwi dyddiedig Mawrth 2024.

Mae'r gwerthoedd ariannol a nodwyd yn y ddogfen hon yn brisiau arian parod (ar sail rhagolwg chwyddiant 2025 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) mis Tachwedd 2025), oni nodir fel arall.

Rydym hefyd yn gwneud gwelliannau i'r rheilffordd ar ran yr Adran Drafnidiaeth ac arianwyr eraill. Caiff y rhain eu hariannu ar wahân ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Mae manylion y prosiectau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Pwy ydym ni

Ni yw rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr, un o bum rhanbarth Network Rail. Yn cysylltu dwy wlad a dwy brifddinas, mae rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr yn gwasanaethu pobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru a'r Gororau, Swydd Rydychen a Dyffryn Tafwys, gorllewin Lloegr a phenrhyn de orllewin Lloegr.

Rydym yn cyfrannu mwy na £300 miliwn yn uniongyrchol i'r economi bob blwyddyn, ochr yn ochr â budd economaidd cymdeithasol ehangach cysylltedd y rheilffordd, sy'n werth o leiaf £3.4 biliwn yn flynyddol yng Nghymru a de orllewin Lloegr[1]. Cefnogwn dwf economaidd trwy gysylltu cymunedau â chyflogaeth a gweithgareddau hamdden: mae'r rheilffyrdd yn cefnogi oddeutu 71,000 o swyddi yng Nghymru a de orllewin Lloegr. Cefnogwn wasanaethau cludo nwyddau hanfodol, ac agregau'n benodol, gan symud miliynau o dunelli o nwyddau bob blwyddyn.

Mae dau lwybr wedi'i datganoli yn ein rhanbarth ni: Cymru a'r Gororau, a Gorllewin Lloegr, sy'n gweithio'n ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon i reoli asedau, gweithrediadau, a gwaith cynnal a chadw. Cânt eu cefnogi gan ein tîm Cyflawni Cyfalaf ar gyfer adnewyddu seilwaith, a gan ein swyddogaethau cefnogi busnes rhanbarthol.




Gyda'n gilydd, rydym yn canolbwyntio ar roi ein teithwyr a'n defnyddwyr trenau cludo nwyddau yn gyntaf, er mwyn darparu rheilffordd ddiogel a dibynadwy sy'n perfformio'n dda bob dydd.

Rydym yn gweithio'n agos â'n partneriaid yn y diwydiant: yn cefnogi gwaith Trafnidiaeth Cymru (TrC) i drawsnewid y rheilffordd yng Nghymru a'r Gororau, ac yn gweithio gyda Transport for London (llinell Elizabeth) a Great Western Railway (GWR) i ddarparu gwasanaethau dibynadwy ledled ein rhanbarth ac i adnabod cyfleoedd i gyflawni buddion cynnar o ddiwygio'r diwydiant.

[1] Cyfraniad economaidd uniongyrchol wedi'i fesur yn ôl cynnyrch domestig gros, ffynhonnell: dadansoddiad NR. Cyfraniad economaidd gymdeithasol wedi'i fesur yn ôl ychwanegiad gwerth gros, ffynhonnell: The Economic Contribution of UK Rail, Oxford Economics, Medi 2021.

## Sut yr ydym wedi diweddaru ein cynllun

Rydym wedi datblygu'r diweddariad hwn i'n Cynllun Cyflenwi trwy gynnal pedwar adolygiad o'n cynllun busnes yn ystod 2025/26. Rydym wedi cynnwys cydweithwyr ar draws ein llwybrau a'n rhanbarth wrth inni olrhain y gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau ar gyfer Blwyddyn 2 Cyfnod Rheoli 7 a dwysau aeddfedrwydd ein cynlluniau. Mae'r dull ailadroddol hwn wedi'n galluogi i addasu cynlluniau ac i ymateb i'r wybodaeth ddiweddaraf. Yn 2025/26 bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau er mwyn peidio â gwario mwy na'n cyllid penodol, tra'n llyncu costau chwyddiant uwch. Rydym hefyd wedi blaenoriaethu gwariant parhaus ar wella perfformiadau trên. Mae hyn wedi cynnwys ailasesu, blaenoriaethu a diweddaru ein cynlluniau ar gyfer adnewyddu adnoddau.

Rydym wedi cryfhau ein gwaith parhaus i drawsnewid y ffordd yr ydym yn rheoli ein busnes, gan ddatganoli ymhellach atebolrwydd sylweddol i'n timau llwybr er mwyn dod â'r gwaith penderfynu'n agosach i'r broses o gyflenwi i'n teithwyr a'n defnyddwyr trenau cludo nwyddau ar y rheng-flaen, fel ein bod yn gwario ein cyllid penodol yn y lleoliadau cywir. Mae'n golygu y gallwn fod yn agosach i'n rhanddeiliaid ac yn ein helpu i baratoi ar gyfer diwygio'r diwydiant.

Byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith cyflenwi yn ôl cynlluniau wrth i'r Cyfnod Rheoli fynd rhagddo. Er bod ein cynlluniau cyflenwi'n adlewyrchu ein safbwynt gorau a mwyaf diweddar o'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni yn ystod Cyfnod Rheoli 7, mae'n anochel y bydd y cynlluniau hyn yn datblygu wrth inni ymateb i risgiau ac ansicrwydd yn ystod y pedair blwyddyn nesaf. Bydd angen arnom barhau i fod yn ystwyth er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau yn ystod y Cyfnod Rheoli. Bydd hefyd angen hyblygrwydd yn y ffordd y byddwn ni'n cael ein rheoleiddio.

**Adolygiad Gwariant 2025**

Roedd Adolygiad Gwariant 2025 yn cyfeirio at dair blwyddyn olaf Cyfnod Rheoli 7 (h.y. Ebrill 2026 - Mawrth 2029) a hefyd yn ystyried cyllideb Gweithrediadau, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu (OMR) Network Rail. Y prif ganlyniad yw bod cyfran ddichonadwy o'n cyllideb wedi'i hail-gategoreiddio dan reolau cyfrifyddu'r llywodraeth. Hefyd, rydym wedi derbyn estyniad gymharol fach i'n cynllun (yn ymwneud â gwariant gweithredol ac incwm) ar draws Cymru a Lloegr yn ystod y tair blwyddyn nesaf.

Ni ddylai ein cynlluniau presennol i gyflawni'r estyniad hwn cael ond yr effaith leiaf un ar ein canlyniadau Cyfnod Rheoli 7.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o'r ffordd yr ydym yn cynnal ein busnes. Mae'n rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i feddyliau, disgwyliadau a blaenoriaethau ein holl randdeiliaid, o deithwyr i gwmnïau trên, o gyflenwyr i awdurdodau lleol.

Lluniwyd ein Cynllun Cyflenwi ar sail ymgysylltu eang â rhanddeiliaid, ac rydym wedi parhau i wella ein dulliau. Mae ein panel herio gan randdeiliaid wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd o ran ein hamcanion trwy gydol y Cyfnod Rheoli, nid dim ond i ystyried ein gwaith cynllunio i'r dyfodol. Adolygodd y panel ein diweddariad i'r Cynllun Cyflenwi ynghyd â Phrosiect Brunel, ein rhaglen adfer gwasanaethau trên ar lwybr gorllewin Lloegr, sy'n rhan o'n cynllun ehangach i wella perfformiad.

# Ein gweledigaeth a strategaeth

Yn yr adran hon, rhoddwn drosolwg o'n gweledigaeth, ein strategaeth a'n canlyniadau, a thynnu sylw at unrhyw newidiadau a wnaed ers cyhoeddi Cynllun Datblygu Cyfnod Rheoli 7 ym mis Mawrth 2024.

## Ein gweledigaeth genedlaethol: symlach, gwell, a gwyrddach

**Symlach.** Byddwn yn chwarae ein rhan yn gwella'r gwasanaeth a roddwn i gwsmeriaid, gan gyfuno'r rheilffordd i'w wneud yn ddewis haws i bobl, a thyfu niferoedd teithwyr a threnau cludo nwyddau. Byddwn yn dileu gwastraff a dyblygu gwaith, ac yn rhoi'r gorau i wneud yr hyn nad yw'n ychwanegu gwerth.

**Gwell.** Byddwn yn parhau i roi teithwyr yn gyntaf ac i symud mwy o nwyddau ar y rheilffyrdd, annog atebolrwydd lleol, a chael meddylfryd mwy masnachol. Byddwn yn creu math newydd o arweinydd rheilffordd, yn buddsoddi mewn sgiliau a diogelwch ein cydweithwyr, yn helpu i ailadeiladu'r rheilffyrdd gyda'n partneriaid, ac yn chwarae ein rhan yn y broses o ddiwygio'r rheilffyrdd.

**Gwyrddach.** A thrwy wneud y rheilffyrdd yn symlach ac yn well, byddwn yn denu mwy o bobl i ddefnyddio'r dull glanaf a gwyrddaf o drafnidiaeth dorfol, ac yn lleihau ein hôl-troed carbon ein hunain.

## Ein themâu strategol cenedlaethol

Mae gennym chwe thema strategol genedlaethol sy'n sail i'n gweledigaeth, ac mae ein cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 yn alinio â phob thema. Mae ein strwythur datganoledig yn golygu bod y rhanbarthau a'r swyddogaethau'n gallu addasu eu strategaethau yn ôl eu hamgylchiadau unigryw eu hunain a blaenoriaethau rhanddeiliaid lleol, gan gyfrannu at yr amcanion rhwydwaith-gyfan ar yr un pryd.

| | |
|---|---|
| Diogelwch | **Pawb yn cyrraedd adref yn ddiogel, bob dydd.** |
| Cyflenwi gwasanaethau trên | **Yn cyflenwi gwasanaethau trên dibynadwy a phrydlon.** |
| Cwsmeriaid a chymunedau | **Yn bartner dibynadwy gyda'r cwsmer wrth galon popeth a wnawn.** |
| Effeithlonrwydd | **Yn rhedeg rheilffordd ddiogel, ddibynadwy ac effeithiol.** |
| Twf cynaliadwy | **I wasanaethu'r wlad gyda'r dull glanaf a gwyrddaf o drafnidiaeth dorfol.** |
| Pobl | **Yn datblygu'n sefydliad a arweinir gan wasanaeth, sy'n perfformio'n dda.** |

## Mae gennym dair blaenoriaeth glir yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr:

- trenau ar amser
- pawb yn cyrraedd adref yn ddiogel bob dydd
- byw o fewn ein hadnoddau

Mae ein strategaeth ranbarthol yn canolbwyntio ar ein hamcanion craidd ac ar yr ymddygiadau a'r diwylliant sydd eu hangen i gefnogi gwaith cyflenwi llwyddiannus.

**Mae gennym sawl amcan lefel uchel i gefnogi ein blaenoriaethau:**

- **Cyflawni ein targed 'ar amser' ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 yn ddiogel**
- **Sicrhau bod gennym yr amgylcheddau a'r trefniadau cywir ar waith i bobl wneud eu gwaith gorau**
- **Ehangu ar y gwaith cydweithredu yr ydym wedi'i gyflawni eisoes gyda phartneriaid y diwydiant yn y rhanbarth**
- **Cyflawni'r pethau sylfaenol yn dda yn gyson**
- **Ymwreiddio ein gwaith gwella perfformiad**
- **Sicrhau y byddwn yn rheoli newidiadau i'r amserlen yn dda**
- **Buddsoddi mewn offer a thechnoleg**
- **Gwella'r broses llywodraethu a sicrwydd ein cynlluniau**

I gefnogi hyn, rydym yn cryfhau ein diwylliant o ddiogelwch corfforol a seicolegol, gan alluogi i'n pobl gwneud eu gwaith gorau. Byddwn yn cefnogi ein pobl, fel eu bod yn teimlo'n ddiogel i godi eu lleisiau. Byddwn yn dathlu canlyniadau gwaith caled ein timau, a byddwn yn gwella cydweithredu â chydweithwyr. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein timau rheng-flaen yn cael eu cefnogi i gyflawni.



# Diogelwch

## Ein huchelgais

Rhaid i'n rheilffordd fod yn ddiogel bob amser. Dylai ein cydweithwyr a'r rhai sy'n defnyddio ac yn rhyngweithio â'n rheilffordd ddisgwyl cyrraedd adref yn ddiogel ac iach bob dydd.

## Ein prif amcanion a rhagolygon ar gyfer diogelwch yn 2024-2029

- Gwella diogelwch y gweithlu gyda gostyngiad o 30 % yn nifer damweiniau ein cydweithwyr.
- Lleihau nifer anafiadau'r cyhoedd a theithwyr. Cefnogir y gwaith hwn gan gerrig milltir diogelwch i deithwyr.
- Cynyddu canran y rheolwyr sy'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl i 50 % a sefydlu cymuned o ymarferwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl.
- Gweithredu rhaglenni hyfforddiant diogelwch cynhwysfawr, asesiadau risg rheolaidd, a hybu diwylliant o ymwybyddiaeth diogelwch ymysg ein cydweithwyr.

| | | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaethau ac Anafiadau a Bwysolwyd | ■ CC26 | 0.084 | 0.076 | 0.068 | 0.066 | 0.062 | 0.059 |
| | – CC24 | 0.088 | 0.079 | 0.075 | 0.072 | 0.068 | 0.064 |
| Lleihau risg damwain trên | ■ CC26 | 95 % | 88 % | 95 % | 95 % | 95 % | 95 % |
| | – CC24 | 91 % | 95 % | 95 % | 95 % | 95 % | 95 % |
| Atebolrwydd personol am ddiogelwch | ■ CC26 | 110 | 169 | 126 | 120 | 117 | 115 |
| | – CC24 | 106 | 125 | 123 | 120 | 117 | 115 |

Nodyn: Y colofnau llwyd yw'r canlyniadau a gadarnhawyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Y colofnau lliwiau golau yw'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Y colofnau lliwiau tywyll sy'n dangos ein rhagolwg diweddaraf yn erbyn ein Cynllun Cyflenwi gwreiddiol. ■ Yn dynodi rhagolwg Cynllun Cyflenwi Mawrth 2026. – Yn dynodi rhagolwg Cynllun Cyflenwi Mawrth 2024.

Mae sicrhau diogelwch i deithwyr ar ein rhwydwaith o'r pwys mwyaf ac rydym yn canolbwyntio'n gryf ar y gwaith o gyflawni ein cerrig milltir i wella diogelwch i deithwyr.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwella croesfannau gwastad, draeniau a llystyfiant, ac adnewyddu ffensys mewn mannau lle mae risg uchel o wartheg yn mynd ar y rheilffordd ar lwybr Cymru a'r Gororau.

Mae llithro, baglu a chwympo'n parhau'n achosion amlwg o ddamweiniau ymysg ein cydweithwyr o hyd, ynghyd â digwyddiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau codi a chario. Yn galonogol, cafwyd lleihad sylweddol yn nifer y damweiniau tebyg yn 2025/26. Rydym wedi cyflwyno rhaglen hyfforddiant codi a chario newydd gyda'r nod o leihau nifer y damweiniau yn y gweithle mwy fyth a gwella diogelwch cyffredinol ein holl gydweithwyr.

## Mentrau allweddol

Rydym wedi parhau â'r strategaeth a amlinellwyd yn ein Strategaeth Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cyfnod Rheoli 7. Rydym wedi canolbwyntio gwelliannau ar gryfhau ein diwylliant diogelwch trwy gynlluniau cadarn yn seiliedig ar ddata ac arweinyddiaeth weladwy.

Lansiasom fentrau wedi'u targedu gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth sefyllfaol a gwella sylwebaeth ar sail risgiau, gan ymgysylltu'n barhaus i fynd i'r afael â heriau allweddol.

Rydym yn parhau i neilltuo arian i'n timau rheng-flaen ar gyfer gwelliannau diogelwch lleol, a ddefnyddiwyd ar gyfer mentrau fel lleihau llithro, baglu a chwympo.

Rydym yn parhau i groesawu technoleg fodern trwy ddefnyddio'r cyfarpar Archwiliad Ochr y Llinell wedi'i Digideiddio (DLI). Mae hwn yn defnyddio lluniau o'r awyr a fideo sy'n wynebu ymlaen o drenau i archwilio llystyfiant, gan leihau faint o amser sydd ar bobl angen ei dreulio ar y trac, gan leihau'r risg diogelwch. Mae hefyd yn creu data am ein blaenoriaethau llystyfiant yn gyflymach.




Yn 2026/27 byddwn yn parhau i wella diogelwch ar groesfannau gwastad trwy raglen o welliannau ar hyd arfordir gogledd Cymru i gefnogi'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau trên.

# Cyflenwi gwasanaethau trên

## Ein huchelgais

Mae ar ein teithwyr a'n cwsmeriaid cludo nwyddau eisiau gwasanaeth dibynadwy bob dydd. Ein huchelgais yw darparu asedau a gweithrediadau dibynadwy, atal tarfu ac ymateb yn gyflym pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

## Ein prif amcanion a rhagolygon ar gyfer cyflenwi gwasanaethau trên yn 2024-2029

- Gwella'r perfformiad 'ar amser' 5 % a lleihau nifer y trenau a ganslwyd 25 %[2].
- Cyflawni ein cynlluniau gwella gwasanaethau trên, gan wella cydnerthedd ein hadnoddau.
- Gwella dibynadwyedd ein hasedau a buddsoddi i wella cydnerthedd ein system llinell uwchben.
- Ymateb yn gynt i ddigwyddiadau, gyda chyd-dimau ymateb i asedau, ac ymateb yn ddiogel i dywydd eithafol ac anrhagweladwy.
- Gwella prosesau rheoli traffig, gwella ein hamserlennu, gwella gallu ein gweithrediadau, a gweithio'n agos â'n partneriaid yn y diwydiant.
- Gweithio gyda randdeiliaid i gynyddu nifer y gwasanaethau cludo nwyddau.
- Lleihau tarfu i wasanaethau cludo nwyddau, a lleihau nifer y trenau a ganslwyd yng Nghyfnod Rheoli 6 52 %.
- Canolbwyntio ar fynd i'r afael â chyfyngiadau ar bwysau echel trwm.

[2] O gymharu â ffigurau diwedd Cyfnod Rheoli 6. Mae Penderfyniad Terfynol Swyddfa'r Rheilffyrdd a Ffyrdd yn gosod targedau perfformiad pendant ar gyfer trenau i deithwyr yn ystod dwy flwyddyn gyntaf Cyfnod Rheoli 7 a thrywyddau dangosol ar gyfer Blynyddoedd 3-5. Cafodd y targedau hyn eu cadarnhau gan adolygiad rheoleiddiol a gynhaliwyd i ailosod mesurau perfformiad trenau i deithwyr, targedau rheoleiddiol, a pharamedrau iawndal oedi'r diwydiant ar gyfer Blynyddoedd 3-5 Cyfnod Rheoli 7. Roedd hyn yn cydnabod yr ansicrwydd sylweddol sydd o ran rhagfynegi a gosod targedau ar gyfer perfformiad trenau. Hefyd, cadarnhawyd 'ar amser o fewn 3 munud' fel y mesur perfformiad arweiniol gan yr adolygiad.



| | | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trenau i Deithwyr Ar Amser o fewn 3* | CC26 | 76.1 % | 78.6 % | 79.1 % | 79.5 % | 79.7 % | 80.0 % |
| | CC24 | 76.1 % | 77.7 % | 77.7 % | 75.3 %-85.5 % | 74.7 %-84.9 % | 74.8 %-85.1 % |
| Canslo Trenau i Deithwyr | CC26 | 4.9 % | 4.7 % | 3.9 % | 3.7 % | 3.7 % | 3.7 % |
| | CC24 | 4.4 % | 3.8 % | 3.8 % | 3.3 %-4.3 % | 3.3 %-4.3 % | 3.3 %-4.3 % |
| Canslo Trenau Cludo Nwyddau | CC26 | 2.9 % | 1.7 % | 1.4 % | 1.4 % | 1.4 % | 1.4 % |
| | CC24 | 3.3 % | 2.1 % | 1.6 % | 1.6 % | 1.6 % | 1.6 % |
| Twf yn Nifer y Trenau Cludo Nwyddau (cilomedrau tunnell net) | CC26 | - | -1.1 % | -8.0 % | -7.5 % | -2.3 % | 0.8 % |
| | CC24 | - | 1.4 % | 2.8 % | 4.1 % | 5.5 % | 6.9 % |
| Mynegai cynaliadwyedd cyfansawdd (pwyntiau % newid Cyfnod Rheoli 7) | CC26 | - | - | - | - | - | -2.9 % |
| | CC24 | - | - | - | - | - | -2.0 % |
| Mynegai dibynadwyedd cyfansawdd | CC26 | -14.3 % | 4.1 % | 7.8 % | 6.1 % | -2.6 % | -3.2 % |
| | CC24 | - | -2.4 % | -4.4 % | -6.5 % | -6.3 % | -6.6 % |
| Methiannau a effeithiodd ar wasanaeth | CC26 | 3,659 | 3,482 | 3,403 | 3,470 | 3,700 | 3,730 |
| | CC24 | 3,622 | 3,651 | 3,733 | 3,810 | 3,796 | 3,827 |

Nodyn: Y colofnau llwyd yw'r canlyniadau a gadarnhawyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Pennir targedau'r Mynegai cynaliadwyedd cyfansawdd a'r Mynegai dibynadwyedd cyfansawdd yn erbyn llinell sylfaen Cyfnod Rheoli 6. Y colofnau lliwiau golau yw'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Y colofnau lliwiau tywyll yw ein rhagolwg diweddaraf yn erbyn ein Cynllun Cyflenwi gwreiddiol. Mae'r ffigurau Ar amser o fewn 3 CC24 sy'n ymhlyg yn deillio o dargedau Ar amser CC24. ■ Yn dynodi rhagolwg Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2026. — Yn dynodi Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2024. * Perfformiad ar rwydwaith Network Rail yn unig.

Gwelsom welliant parhaus ym mherfformiad gwasanaethau trên trwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i'n cynllun gwella perfformiad lle rydym yn buddsoddi mwy o arian i wella gwasanaethau trên.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu rheilffordd wych ar draws ein dau lwybr, ac i barhau i wella perfformiad. Cafodd ein cynllun gwella manwl ei gymeradwyo gan Swyddfa'r Rheilffyrdd a Ffyrdd ym mis Medi 2024, ac mae'n atgyfnerthu'n hymrwymiad i gydweithredu â phartneriaid yn y diwydiant, i gyflawni'r lefelau gwasanaeth y mae teithwyr a defnyddwyr trenau cludo nwyddau'n eu haeddu.

## Mentrau allweddol

Mae ein cynllun gwella perfformiad yn cynnwys oddeutu 50 o weithgareddau y byddwn yn eu cyflawni rhwng nawr a 2029 er mwyn gwella perfformiad trenau i deithwyr a threnau cludo nwyddau.

Mae darparu perfformiad gwasanaethau trên da yn her i'r diwydiant cyfan, ac mae'n cynnwys materion cymhleth a chydgysylltiol. Rydym yn gweithio'n gydweithredol gyda'n cwmnïau trên a chwmnïau cludo nwyddau i gyflawni ein cydgynlluniau gwella. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu ymagwedd gyfannol rhwng trac a thrên i fynd i'r afael â phrif achosion oedi, ynghyd â pha mor gyflym y gallwn ni adfer gwasanaethau trên pan fydd anawsterau'n codi.

Rydym yn cefnogi'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau trên ar ein rhwydwaith, gyda gweithdrefnau cadarn ar gyfer asesu a lliniaru risg ar waith. Rydym yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i gefnogi cynnydd sylweddol yn nifer y gwasanaethau yng ngogledd Cymru ym mis Mai 2026 er mwyn cyflawni Rhwydwaith Gogledd Cymru, newidiadau proffil uchel a fydd yn trawsnewid cysylltedd yn yr ardaloedd lleol. Mae ein cyd-grwpiau rhwydwaith T gyda TrC hefyd yn ysgogi gwelliant perfformiad lleol.

Oherwydd yr hinsawdd sy'n newid, cafwyd tywydd mwy eithafol yn ystod yr hydrefau a gaeafau yn ddiweddar. Mae ein teithwyr a'n rhanddeiliaid yn disgwyl inni ymateb i'r digwyddiadau hyn yn effeithlon ac i adfer ein gwasanaethau'n gyflym ar eu hôl. I baratoi ar eu cyfer, rydym wedi cyflawni gwaith cynllunio helaeth ac yn gwella gwydnwch ein hasedau i wrthsefyll y tywydd.

Rydym yn parhau i weithio'n agos â chwmni HS2 Limited i ddeall y risgiau i berfformiad a'r gwaith lliniaru oherwydd adeiladu'r gyfnewidfa GWML / HS2 yn Old Oak Common (gorsaf wyth platfform newydd sy'n cael ei hadeiladu tair milltir i'r gorllewin o Lundain Paddington) Rhagwelwn y bydd y gwaith hwn yn cael effaith sylweddol ar ein dulliau cyflenwi perfformiad.

## Cludo nwyddau

Mae Prydain yn dibynnu ar drenau sy'n cludo nwyddau i bweru'r economi, ac mae'r busnes cludo nwyddau ar y rheilffordd yn parhau i dyfu. Rydym yn falch i gefnogi'r sector cludo nwyddau ar y rheilffordd, ac wedi ymrwymo i gefnogi twf y sector yn y rhanbarth.

Fodd bynnag, effeithiwyd ar dwf yn rhanbarth Wales & Western gan effeithiau macro-economaidd ehangach a effeithiodd ar ein prif lifau traffig, fel y gwendid yn y llifau adeiladu sef y rhan drechaf o'r traffig cludo nwyddau yn ein rhanbarth. Rydym yn ymgysylltu â chwmnïau cludo nwyddau ar y rheilffordd a defnyddwyr terfynol i ddeall sut i gefnogi mwy o dwf yn y sector cludo nwyddau. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymchwil ar sut i gyflymu trenau cludo nwyddau, yn fwyaf arwyddocaol yn Nhwnnel Hafren.

Dyfarnwyd gwobr 'Ysgogi Twf Cludo Nwyddau ar y Rheilffordd' i lwybr Cymru a'r Gororau yng Ngwobrau Grŵp Cludo Nwyddau ar y Rheilffordd, i gydnabod ei gydymdrechion i ymestyn gwasanaethau cludo nwyddau a chefnogi economïau lleol. Mae'r mentrau wedi cynnwys cynllun mynediad peirianyddol wedi'u ddiwygio yn Noc Alexandra yng Nghasnewydd, a chyd-ymchwiliadau o'r trac rhwng uned cyflenwi Caerdydd a DB Cargo. Rydym hefyd yn datblygu amserlen newydd ar gyfer gwasanaethau cludo nwyddau i gefnogi'r cynnydd yn y traffig dur i Bort Talbot.

## Ein cynllun gwella perfformiad

| | | |
|---|---|---|
| Gwella dibynadwyedd seilwaith | Gwelliannau o ran ymadfer gwasanaethau | Dysgu'n well o ddigwyddiadau |
| Adnewyddu gwifrau'r llinell uwchben rhwng Paddington a Hayes & Harlington | Uwchsgilio ein pobl | Datblygu gwell drefniadau cynnal a chadw |
| Torri llystyfiant risg uchel | Gwella ein gallu i wrthsefyll y tywydd | Gwella ein draeniau |



# Cwsmeriaid a chymunedau

## Ein huchelgais

Hoffem ragori ar ddarparu profiad diogel ac arbennig i gwsmeriaid ar gyfer holl ddefnyddwyr y rheilffordd. Byddwn yn gymydog da ac yn cefnogi ein cymunedau lleol.

## Ein prif amcanion a rhagolygon ar gyfer cwsmeriaid a chymunedau yn 2024-2029

- Gwella boddhad teithwyr 7 %.
- Gwella gwasanaethau a gwybodaeth i gwsmeriaid, a gosod toiledau “Changing Places” yn y gorsafoedd a reolir gennym.
- Bod yn gymydog da, yn cwblhau pob cais am wasanaeth gan gymydog i’r rheilffordd cyn pen 20 o ddiwrnodau.
- Cefnogi mentrau rheilffyrdd cymunedol ar draws ein rhanbarth.



| | | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Boddhad Teithwyr | CC26 | 7.7 | 7.8 | 87.6 % | 88.9 % | 89.1 % | 89.5 % |
| | CC24 | 7.7 | 7.8 | 85.8 % | 84.2 % | 84.4 % | 84.7 % |

Nodyn: Y colofnau llwyd yw’r canlyniadau a gadarnhawyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Y colofnau lliwiau golau yw’r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Y colofnau lliwiau tywyll yw ein rhagolwg diweddaraf yn erbyn ein Cynllun Cyflenwi gwreiddiol. Newidiwyd yr arolwg a ddefnyddiwyd i asesu boddhad teithwyr o Wavelength i RCXS a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y rhagolygon ar gyfer blynyddoedd 2-5 o’r Cyfnod Rheoli. ■ Yn dynodi rhagolwg Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2026. – Yn dynodi Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2024.

Mae ein sgôr Boddhad Teithwyr yn parhau i fod ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed ar gyfer eleni. Gwyddom fod cysylltiad cryf rhwng boddhad a chyflenwi gwasanaethau trên. Bydd rhedeg trenau ar amser yn gyson yn helpu i gynnal lefelau uchel o foddhad.

Arolwg newydd i’r diwydiant cyfan yw Arolwg Profiad Cwsmeriaid y Rheilffordd (RCXS) sy’n cynnig un safbwynt cyson o brofiad cwsmeriaid ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd. Mae’n disodli arolwg Wavelength a hen arolygon eraill, gan greu sylfaen dystiolaeth a rennir gan Network Rail, cwmnïau trên a’r diwydiant ehangach.

Mae arolwg RCXS yn mesur boddhad cyffredinol, gwerth am arian a gwaith eirioli, ochr yn ochr â chamau allweddol o daith y cwsmer, gan ddefnyddio dull arolygu parhaus ar y trên i ddarparu barn gadarn a chymaradwy ar gyfer gweithredu lleol a meincnodi cenedlaethol.

Mae arolwg RCXS yn adeiladu ar gryfderau Wavelength ac yn cynnig cynnwys ehangach, arolygon mwy aml, methodoleg gyson a mewnwelediadau mwy manwl. Bydd mynediad cyflymach i ganlyniadau, cymhared gwell ar draws y rhwydwaith, a byrddau gwaith a rennir yn rhoi i Network Rail a’r cwmnïau trên mewnwelediadau cliriach sy’n haws eu rhoi ar waith.

## Mentrau allweddol

Yn ogystal â'n cynlluniau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau trên ledled y rhanbarth, rydym yn ymateb yn uniongyrchol i'n teithwyr drwy wella eu profiadau yn y gorsafoedd a reolir gennym (Llundain Paddington, Reading a Bristol Temple Meads). Rydym yn blaenoriaethu meysydd allweddol yn ein gorsafoedd fel glanhau, cymorth i deithwyr, a gwybodaeth yn ystod tarfu. Hefyd, mae 'tîm Paddington' sy'n gyfrifol am reoli a chynnal gorsaf Paddington, wedi diweddaru'r byrddau gwybodaeth i gwsmeriaid, gwella'r broses o archebu sedd i hwyluso'r broses o fynd ar y trên yn brydlon, a gwella'r cyfathrebu rhwng ymgysylltu a staff trwy gynnal cyfarfodydd shifft yn y bore a'r prynhawn.

Ledled llwybrau Cymru a Gorllewin Lloegr, byddwn yn parhau i wella hygyrchedd mewn gorsafoedd, gan osod ac adnewyddu palmentydd botymog, a chydymffurfio â gofynion goleddf y llawr mewn lleoliadau allweddol. Bydd teithwyr hefyd yn elwa o gael lifftiau a grisiau symudol mwy dibynadwy, gwaith adnewyddu ar bontydd troed mewn gorsafoedd, a gwelliannau i oleuadau ar blatfformau.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i ymgysylltu'n gadarnhaol â'n partneriaid a'n cymunedau. Fodd bynnag, nid ydym yn cyrraedd ein targed cyffredinol o ran cysylltu â chwsmeriaid. Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion yn gofyn am waith gan ein timau rheng-flaen a bu rhaid inni gydbwyso hyn â'n gweithgareddau i wella perfformiad trenau. Rydym yn gweithio i ddatrys cwynion yn gyflymach.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos â phartneriaethau rheilffordd cymunedol, gan reoli'n weithredol 20 o gynlluniau cymunedol lleol, ac yn cydweithredu ac yn alinio'n well â mentrau rhanddeiliaid rhanbarthol er mwyn gwella profiadau integredig i gwsmeriaid.

Yng Nghymru, amcangyfrifwn ein bod wedi cyflenwi dros £10 miliwn o werth cymdeithasol trwy ein gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys gwirfoddoli gan gydweithwyr.




Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cymunedau lleol. Mae ein rheolwyr diogelwch cymunedol dynodedig yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol i hyrwyddo diogelwch ar y rheilffyrdd ac ymgysylltu â'r rheilffordd. Rydym yn cynnal ymgyrchoedd diogelwch i hyrwyddo defnydd diogel o'n rhwydwaith.

# Effeithlonrwydd

## Ein huchelgais

Bob dydd, mae'n gyfrifoldeb arnom i wario arian trethdalwyr yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflenwi rheilffordd sy'n perfformio'n wych ac sy'n lleihau cymhorthdal net y diwydiant cyfan, gan amddiffyn a chynhyrchu refeniw ychwanegol i'r diwydiant cyn ei ddiwygio.

## Ein prif amcanion a rhagolygon ar gyfer effeithlonrwydd yn 2024-2029

- Llwyddo i gyflawni gwerth am arian o ran ein gwaith adnewyddu adnoddau gwerth £2.5 biliwn a gwariant gweithredu gwerth £2.8 biliwn, gan gynnwys arbedion effeithiolrwydd gwerth mwy na £530 miliwn.
- Bod yn gleient mwy deallus yn ein cadwyn gyflenwi, gan weithio'n agosach ac yn fwy cydweithredol.
- Cynyddu nifer y gwasanaethau a chyfleusterau a ddarparwn yn y gorsafoedd a reolir gennym, gan greu refeniw ychwanegol i'w ail-fuddsoddi.

| | | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithlonrwydd gwariant gweithredu (£ miliwn) | CC26 | - | 19 | 50 | 82 | 119 | 176 |
| | CC24 | - | 11 | 34 | 71 | 119 | 175 |
| Effeithlonrwydd gwariant cyfalaf (£ miliwn) | CC26 | - | 58 | 112 | 179 | 260 | 355 |
| | CC24 | - | 25 | 73 | 140 | 223 | 319 |

Nodyn: Daw'r targedau hyn o linell sylfaen ar ddiwedd Cyfnod Rheoli 6. Y colofnau lliwiau golau yw'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Y colofnau lliwiau tywyll yw ein rhagolwg diweddaraf yn erbyn ein Cynllun Cyflenwi gwreiddiol.
* Mae'r graffiau'n dangos y sefyllfa gronnol. ■ Yn dynodi rhagolwg Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2026. – Yn dynodi Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2024.

Rhagwelwn y byddwn yn rhagori ar ein targed effeithlonrwydd yn ystod ail flwyddyn Cyfnod Rheoli 7. Cefnogwyd hwn gan ein rhaglen Cleient Gwybodus: dull o gyflawni ein portffolio o waith cyfalaf a adolygwyd o'i hanfod. Mae hwn yn helpu i leihau risg mewn perthynas â chyflawni effeithlonrwydd yn y dyfodol. Rydym wedi codi ein targed ar gyfer cyflenwi effeithlonrwydd yn gyffredinol i fynd i'r afael â phwysau ariannol chwyddiant.

## Mentrau allweddol

Rydym wedi ymrwymo i gyflenwi cynlluniau effeithlonrwydd ymestynnol, gan barhau i fod yn ystwyth wrth ymwneud â'r heriau o gyflenwi oherwydd yr ansicrwydd ariannol a wynebwn yn ystod Cyfnod Rheoli 7, gan gynnwys chwyddiant. Bydd ein costau gweithredu 10 % yn rhatach a'n gwaith adnewyddu 15 % yn rhatach o gymharu â Chyfnod Rheoli 6 (cyn chwyddiant).

Yn ogystal â rhaglen Cleient Deallus (ein menter flaengar o ran effeithiolrwydd asedau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7) mae gennym ystod o arbedion effeithlonrwydd ar gyfer ein portffolio adnewyddu, gan gynnwys dulliau mwy effeithlon o gyflawni prosiectau allweddol fel adnewyddu gwifrau'r llinell uwchben rhwng Paddington ac Airport Junction, ynghyd â defnyddio technoleg ddigidol i newid ein ffordd o gynllunio a defnyddio mynediad i'r trac ar gyfer gwaith peirianyddol. Mae symud at ddefnyddio datrysiad ar sail gwybodaeth ddigidol yn arbed mwy na £1.2 miliwn ac yn rhoi gwybodaeth well i'n pobl mewn amser real.

Rydym wedi moderneiddio'n trefniant cynnal a chadw, gan anfon dim ond y nifer gywir o bobl gyda'r sgiliau cywir, i wneud y gwaith cywir ar yr adeg gywir – yn ddiogel. Bellach rydym yn moderneiddio'n strwythur rheoli, yn parhau i ddatganoli mwy o benderfyniadau i'n llwybrau, er mwyn iddynt wneud y penderfyniadau cywir am gynlluniau adnewyddu asedau ar sail y farchnad, er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl.

Mae ein cydweithredu â'r diwydiant o ran effeithlonrwydd wedi canolbwyntio'n bennaf ar wella strategaethau mynediad a chyflenwi. Ar gyfer ein prosiectau cyfalaf mwy o faint, mae cytundebau i ddefnyddio blocadau hirach wedi bod yn llwyddiannus iawn yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae'r blocadau hefyd wedi'n galluogi i leihau'r effaith gyffredinol ar drenau i deithwyr a threnau cludo nwyddau. Yn ogystal, rydym yn edrych ar opsiynau i fabwysiadu egwyddorion mynediad yn ystod y dydd.




Rydym yn mabwysiadu technolegau arloesol yn rhagweithiol er mwyn gwella profiad y teithiwr, cryfhau diogelwch a chyflawni ffyrdd clyfrach, mwy cost-effeithiol o redeg y rheilffordd. Mae hyn yn cynnwys treialu technoleg newydd i gyflawni gwelliannau rhatach i signalau ar linellau gwledig.

# Twf cynaliadwy

## Ein huchelgais

Mae ein teithwyr a defnyddwyr trenau cludo nwyddau'n edrych ar y rheilffyrdd i ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy. Mae gennym gyfrifoldeb i leihau ein hôl-troed carbon, darparu rheilffordd gydnerth, a gwerthfawrogi ein deunyddiau a'n tir. Rydym wedi ymrwymo i gynnal ffyniant ein cymunedau yn y dyfodol, gan weithio gyda phobl eraill i ddatblygu a chyflawni gwelliannau sy'n cefnogi twf economaidd.

## Ein prif amcanion a rhagolygon ar gyfer twf cynaliadwy yn 2024-2029

- Arwain y camau gweithredu i liniaru effaith gynyddol newid hinsawdd, hyrwyddo trafnidiaeth allyriadau isel a lleihau ein hallyriadau ein hunain ar yr un pryd.
- Gwella bioamrywiaeth 4 %.
- Bod yn rhanbarth cydnerth, gan addasu i'r heriau a achoswyd gan newid hinsawdd.
- Gweithio gyda randdeiliaid i ddatblygu strategaethau buddsoddi lleol.

| | | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau Carbon – lleihau Cwmpas 1 a 2 (pwyntiau % newid Cyfnod Rheoli 7) | CC26 | -33 % | -2 % | -5 % | -9 % | -14 % | -21 % |
| | CC24 | -33 % | -2 % | -5 % | -9 % | -14 % | -21 % |
| Enillion net unedau bioamrywiaeth (pwyntiau % newid Cyfnod Rheoli 7) | CC26 | - | 0 % | 1 % | 2 % | 3 % | 4 % |
| | CC24 | - | 0 % | 1 % | 2 % | 3 % | 4 % |

Nodyn: Daw'r targedau hyn o linell sylfaen ar ddiwedd Cyfnod Rheoli 6. Y colofnau lliwiau golau yw'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Y colofnau lliwiau tywyll yw ein rhagolwg diweddaraf yn erbyn ein Cynllun Cyflenwi gwreiddiol.
Yn dynodi rhagolwg Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2026. Yn dynodi Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2024.

Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed ar gyfer 2025/26 i leihau allyriadau carbon 5 % ers 2023/24. Mae cyflwyno cerbydau allyriadau sero i'n fflyd o gerbydau ffyrdd yn parhau i wneud cyfraniad mawr i'r lleihad hwn.

## Mentrau allweddol

Er mwyn cefnogi ein cynnydd o ran datgarboneiddio a gwella ansawdd aer, byddwn yn gweithredu mentrau ymyrryd mewn ynni i leihau defnydd. Byddwn yn mynd ar ôl mathau amgen o gaffael ynni er mwyn cyfrannu at amcan y Llywodraeth o gyrraedd carbon sero net erbyn 2050.

Ein nod yw symud o ddefnyddio peiriannau tanio mewnol i gerbydau trydan erbyn 2030, ac rydym yn gweithio i newid 30 %  o'n fflyd erbyn 2027. Rydym eisoes wedi archebu 120 o gerbydau trydan a fydd yn ein helpu i gyrraedd ein targedau o ran datgarboneiddio, tra'n gwella ansawdd aer a chyflwyno cerbydau llai swnllyd.

I gefnogi mentrau dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, cafodd peiriannau ail-lenwi dŵr sy'n nodi pob ail-lenwad o 500ml eu gosod yng ngorsaf Bryste Temple Meads. Mae'r peiriannau'n nodi'r defnydd a wneir ohonynt ac maent wedi cyfrannu at leihau'r defnydd o fwy na 200,000 o fotelau plastig.

I wella ein gallu i wrthsefyll y tywydd, rydym wedi targedu ein gwariant ar safleoedd sy'n gorlifo'n aml, gan wneud gwelliannau yng nghroesfan wastad Sain Siorys, Tregŵyr a Sgiwen. Rydym wedi sefydlu tasglu rheoli dŵr i gyflwyno ymagwedd gyfannol at reoli dŵr gyda'n cymdogion er mwyn rheoli risg llifogydd i'n hasedau

Byddwn hefyd yn parhau i wneud gwelliannau i fioamrywiaeth trwy waith rheoli gwerthfawr ar ochr y rheilffordd, ac yn datblygu toeau gwyrdd a gerddi cymunedol mewn gorsafoedd.

Yn olaf, byddwn yn cryfhau ein hymgysylltu ag arianwyr, awdurdodau lleol a chymunedau, a'n perthynas gweithiol â hwy. Byddwn yn gweithio i gyflymu'r gwaith datblygu o amgylch ein gorsafoedd er mwyn integreiddio'r rheilffordd â dulliau eraill o drafnidiaeth, ac i wella'r profiad trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol.



Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn cyflawni cynlluniau cyffrous i wella'r rheilffordd er budd teithwyr a gwasanaethau cludo nwyddau ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys llinell Metro Canol Cernyw lle agorasom blatfform newydd yn Newquay er mwyn cefnogi'r broses o ddyblu nifer y gwasanaethau trenau yn hwyrach yn 2026.

# Pobl

## Ein huchelgais

Mae ein pobl wrth galon y gwaith o redeg y rheilffordd. Hoffem i'n hymrwymiad i ofalu am ein gilydd, a chadw pawb yn ddiogel, yn iach ac wedi eu hymgysylltu, fod yn weladwy bob dydd.

## Ein prif amcanion a rhagolygon ar gyfer pobl yn 2024-2029

- Gwella ein hymgysylltu â chyflogeion i 64 %.
- Cael ein cydnabod am ein hymrwymiad i fod yn deg, yn amrywiol ac yn gynhwysol.
- Cydweithredu â'n partneriaid yn y diwydiant i baratoi ein hunain ar gyfer diwygio'r diwydiant.
- Gwella ein gweithleoedd gyda'r cyfleusterau llesiant cywir.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant a chymhwysedd fel bod gan ein pobl y sgiliau cywir i'w rôl.

| | | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â chyflogeion | CC26 | 52 % | 60 % | 61 % | 62 % | 63 % | 64 % |
| | CC24 | 48 % | 49 % | 49 % | 50 % | 50 % | 51 % |

Nodyn: Y colofnau llwyd yw'r canlyniadau a gadarnhawyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Y colofnau lliwiau golau yw'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Y colofnau lliwiau tywyll yw ein rhagolwg diweddaraf yn erbyn ein Cynllun Cyflenwi gwreiddiol. ■ Yn dynodi rhagolwg Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2026. – Yn dynodi Cynllun Cyflenwi mis Mawrth 2024.

Ym mis Mawrth 2025, cynaliasom ein harolwg ymgysylltu â chyflogeion a chafwyd gwelliant o 8 % mewn ymgysylltu ers y flwyddyn flaenorol. Mae ein rheolwyr wedi cydweithredu gyda'u timau i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella i'w cyflawni eleni.



## Mentrau allweddol

Rydym wedi adfywio'n strategaeth bobl sy'n canolbwyntio ar greu gweithlu sydd â'r sgiliau cywir, sy'n ymgysylltu ac yn derbyn gofal da.

Rydym yn canolbwyntio ar groesawu gwaith moderneiddio ac arloesi parhaus, gan gynnwys cydweithredu â'n partneriaid yn y diwydiant i ysgogi cynnydd a pharatoi ar gyfer integreiddio'r diwydiant cyn GBR, gan adeiladu sefydliad cynaliadwy, modern a hyblyg.

Bydd gennym ddiwylliant diogel a gofalgar sy'n meithrin diwylliant dysgu yn ein sefydliad, ac rydym yn anelu at ddatblygu arweinwyr wedi'u grymuso a gefnogir gan gyfathrebu gwych yn fewnol ac yn allanol.

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn yn creu amgylchedd diogel, croesawgar, parchus, a chynhwysol i'n holl bobl, ein teithwyr a'n gadwyn gyflenwi, lle bydd pawb yn gallu teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am bwy ydynt, a lle mae ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn.

Rydym yn cynllunio'n gweithlu strategol fel bod gennym y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir i ddatblygu a defnyddio dulliau o weithio wedi'u moderneiddio. Rydym wedi llwyddo i sefydlu lleoliadau prentisiaeth a secondiadau traws-ddiwydiannol gyda TrC a GWR, gyda'r nod o roi profiad diwydiant-gyfan i unigolion.

Rydym yn parhau i gryfhau ein cynlluniau i reoli cymhwysedd fel bod ein pobl yn parhau i fod yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau.

Byddwn yn rhoi dulliau gwell i bobl wneud gwaith da, ac yn herio prosesau a ffyrdd o weithio nad ydynt yn ychwanegu unrhyw werth. Bydd ein gweithleoedd yn fodern, yn ddiogel ac yn lân, gan ddarparu amgylchedd gweithio gwych i'n holl bobl.



Mae Charles, Tamzin, Ryan a Sam yn datblygu eu gyrfaoedd gyda'r rheilffordd trwy gynllun prentisiaid Network Rail. Mae'r cynllun yn cynnig mwy na hyfforddiant – cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, profiad o'r byd go iawn, a llwybrau clir ar gyfer datblygu gyrfa. Trwy fuddsoddi mewn pobl rydym yn gwneud mwy nag adeiladu sgiliau – rydym yn creu gyrfaoedd am oes.

# Ein hincwm a'n gwariant

## Cyflwyniad

Yn yr adran hon, rydym yn rhoi trosolwg o'n hincwm a gwariant ar gyfer Blwyddyn 3 Cyfnod Rheoli 7 (ar sail rhagolwg mis Chwefror 2026) a'n hincwm a gwariant a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 3-5 Cyfnod Rheoli 7, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau i gynllun cyflenwi Cyfnod Rheoli 7 mis Mawrth 2024.

## Gweithrediadau a chymorth Cyfnod Rheoli 7

### Gweithrediadau

Ein nod yw cyflenwi gweithrediadau sy'n cynnig gwasanaethau di-dor i'n cwsmeriaid, gwasanaeth sy'n lliniaru risg oedi i drenau ac sy'n ymadfer yn gyflym pan fydd oedi'n digwydd. Rydym yn ymestyn y gwaith o roi technolegau rheoli traffig ar waith fesul cam i weddill y rhanbarth, a fydd yn ein caniatáu i redeg mwy o drenau'n ddiogel ac yn fwy dibynadwy, a rheoli rhwydwaith y rheilffyrdd yn fwy effeithlon i deithwyr a chwsmeriaid.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gennym y lefel cywir o adnoddau yn ein swyddogaethau gweithrediadau, gan ddatblygu ein cydweithwyr a chynnal lefelau uchel o gymhwysedd, gallu a chynhyrchiant, denu talent newydd, a rheoli ein swyddi gwag – sydd bellach yn llai na 4 % i'r signalwyr. Rydym yn rhoi cynllun tymor hirach ar waith a fydd yn adlewyrchu proffil demograffig ein gweithlu.

Mae ein hystafelloedd rheoli wrth galon ein busnes, yn gweithio i weld ein trenau yn rhedeg ar amser ac yn ymdrin â digwyddiadau wrth iddynt godi. Rydym yn gweld buddion ein buddsoddiad mewn academi arweinyddiaeth newydd i uwchsgilio'n timau rheoli, a byddwn yn parhau i wella'r swyddogaeth hollbwysig hon sy'n monitro ac yn rheoli'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau trên.

Defnyddiwn ddata i adnabod gwelliannau i'w cynnwys yn yr amserlen, er mwyn cyflenwi rheilffordd sy'n perfformio'n dda iawn ac y mae ein teithwyr a'n cwsmeriaid trenau cludo nwyddau'n gallu dibynnu arni.

### Cymorth

Mae ein swyddogaethau cymorth yn cynnwys timau rhanbarthol sy'n ymwneud â chyllid, adnoddau dynol, arweinyddiaeth iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, masnachol a Chyflawni Cyfalaf. Ar lefel llwybr, mae cymorth yn cynnwys y gorsafoedd a reolir gennym, y tîm cynllunio llwybrau, y tîm perfformiad a'r tîm cysylltiadau cwsmeriaid. Rydym yn parhau i graffu'n fanwl ar adnoddu yn ein prif swyddogaethau, er mwyn iddynt barhau i fod yn effeithlon a chynnig gwerth i'r llwybr a'r timau cyflenwi a gefnogir ganddynt.

## Cynnal a chadw ein rheilffordd a'i hadnewyddu (gan gynnwys gwariant cyfalaf arall)

Ein nod yw cyflenwi rheilffordd sy'n perfformio'n dda iawn i deithwyr a threnau cludo nwyddau, gan gydbwyso anghenion adnoddau â fforddiadwyedd. Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, anelwn at wella diogelwch a pherfformiad gwasanaethau trên cymaint â phosibl o fewn y cyllid sydd ar gael.

Yn unol â'n hymagwedd a arweinir gan y farchnad, llywiwyd ein gwaith penderfynu trwy ystyried ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Gwnaethom gyfnewidiadau allweddol yn ein cynlluniau rheoli asedau, i fuddsoddi mewn ardaloedd risg uchel er mwyn cyflawni ein targedau o ran diogelwch, perfformiad a dibynadwyedd. Rydym wedi cryfhau ein trefniannau cynnal a chadw mewn rhai ardaloedd, gan ganiatáu i gronfeydd adnewyddu cael eu hail-flaenoriaethu, yn arbennig er mwyn cefnogi gwaith gwella perfformiad ar linellau allweddol y llwybr. Rydym yn parhau i adolygu'n

cynlluniau'n barhaus er mwyn cyflawni'r gwasanaeth gorau i'n teithwyr a'r defnyddwyr trenau cludo nwyddau.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'n Hawdurdod Technegol a rhanbarthau Cymru a Lloegr i ddatblygu fframwaith asesu risg diogelwch sy'n ein galluogi ni i ddeall yn fwy trylwyr a chyson manylion y risgiau i asedau a diogelwch yr ydym yn debygol o'u hwynebu oherwydd lefelau is na'r disgwyl o waith adnewyddu, ac sy'n adnabod gwaith lliniaru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymwreiddio'r asesiadau risg diogelwch ar gyfer yr holl adnoddau (heblaw telegyfathrebu) ymhellach i'r prosesau sicrwydd cenedlaethol a rhanbarthol, ac wedi'u defnyddio i asesu newidiadau i'n cynlluniau rheoli asedau trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn datblygu dull o ddefnyddio'r rhain yn systemaidd yn y gwaith o gynllunio'n Cynllun Rheoli nesaf.

Mae ein model gweithredu datganoledig yn dwyn ynghyd arweinyddiaeth ein gweithrediadau adnewyddu a'n gweithrediadau cynnal a chadw mewn timau yn seiliedig ar lwybrau, sydd wedi cryfhau'r aliniad rhwng ein tîm rheoli asedau a'n tîm cynnal a chadw a'n cynlluniau adnewyddu a chynnal a chadw ar gyfer Cyfnod Rheoli 7.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi newid y math o waith adnewyddu a gwaith cynnal a chadw yr hoffem ei gyflawni yn ystod blynyddoedd 3-5 Cyfnod Rheoli 7 er budd perfformiad diogelwch, asedau a threnau. Mae hyn wedi golygu na fydd angen rhai o'r meintiau effeithiol gwreiddiol mwyach.

Oherwydd y newidiadau hyn, mae ein gwaith modelu diweddaraf yn awgrymu y bydd oes ein hasedau ar gyfartaledd yn tyfu, o gymharu â dechrau Cyfnod Rheoli 7, tu hwnt i'n targed rheoleiddiol gwreiddiol o -2.0 %  yn y Mynegai Cynaliadwyedd Cyfansawdd.  Rydym yn gweithio gyda Swyddfa'r Rheilffyrdd a Ffyrdd i edrych ar ailosod ein targed rheoleiddiol ar gyfer y Mynegai Cynaliadwyedd Cyfansawdd er mwyn ystyried y rhagolwg diweddaraf, gan ddefnyddio Polisi Rheoli Newid y rheoleiddiwr ar gyfer Cyfnod Rheoli 7.

**Mae ein gweithgareddau a gwariant cynnal a chadw ac adnewyddu fesul ased ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 fel y ganlyn:**

**Tabl 1.** Gweithgareddau a gwariant Blwyddyn 1-2, a'r gweithgareddau a gwariant a gynlluniwyd ar gyfer Blynyddoedd 3-5 yng Nghyfnod Rheoli 7 (£ miliwn, prisiau arian parod ôl-effeithlon yn cynnwys risg, cyfeintiau llinellol).

| | | Gwariant | | Cyfeintiau | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ased** | Blaenoriaethau Cyfnod Rheoli 7 (ac unrhyw newidiadau allweddol) | **Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7** Cynllun Cyflenwi Mawrth 2024 | **Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7** Cynllun Cyflenwi Mawrth 2026 | **Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7** Cynllun Cyflenwi Mawrth 2024 | **Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7** Cynllun Cyflenwi Mawrth 2026 |
| **Trac** | Canolbwyntio ar anghenion perfformiad, mynd i'r afael ag ardaloedd risg uchel o ran cyfyngiadau cyflymder, a lleihau gofynion cynnal a chadw trwy waith adnewyddu llinell blaen a arweinir gan gyflwr y trac. | £681 miliwn | £676 miliwn | 479km o linell blaen 308 o unedau switsys a chroesiadau | 406km o linell blaen 355 o unedau switsys a chroesiadau |
| **Oddi ar y trac** | Adnewyddu ffensys gan leihau nifer yr achosion o anifeiliaid yn crwydro ar y trac a rhaglen rheoli llystyfiant mawr i wella perfformiad gwasanaethau trên. | £96 miliwn | £79 miliwn | 647km | 519km |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Signalau** | Adnewyddu'r seilwaith trydanol hynaf, tynnu ymaith cyfarpar segur, ac adnewyddu signalau cyfrifiadurol a gyrhaeddodd diwedd eu hoes ar linell y Cambrian. Cafodd costau datblygu ar gyfer gwaith ail-signalu FP1 ei hail-ddiddymu. | £422 miliwn | £349 miliwn | 3,514 SEU [3] | 2,441 SEU [3] |
| **Croesfannau gwastad** | Adnewyddu croesfannau gwastad ar ddiwedd eu hoes i gyrraedd safonau modern, a rhoi ymyraethau diogelu defnyddwyr ar waith. Lleihau gwariant heb fod yn gyfaint. | £110 miliwn | £93 miliwn | 97 o gyfeintiau [4] | 96 o gyfeintiau |
| **Strwythurau** | Ail-ganolbwyntio gweithgareddau ar fynd i'r afael â risgiau allweddol a chynnal diogelwch gyda mwy o wariant ar waith archwilio asedau, gwaith adnewyddu mewn twneli ar sail cyflwr (gan gynnwys draeniau yn Nhwnnel Hafren), a gwaith ar bontydd. | £340 miliwn | £329 miliwn | 46,146m$^2$ | 27,450m$^2$ |
| **Cloddiau** | Buddsoddi mewn cyfarpar datgelu methiannau a theclynnau geodechnoleg i wella'r gallu i wrthsefyll tywydd eithafol a newid hinsawdd. | £308 miliwn | £244 miliwn | 5,649 o gyfeintiau | 2,367 o gyfeintiau |
| **Draeniau** | Parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwaith cynnal a chadw draeniau, gyda thimau dynodedig i ategu'r rhaglen adnewyddu. Olrhain y cyfeintiau adnewyddu draeniau a gynyddwyd i wella perfformiad yn ystod glaw difrifol. | £77 miliwn | £82 miliwn | 125,002m | 109,931m |
| **Adeiladau** | Buddsoddi mewn cynlluniau depo i TrC a GWR er mwyn cefnogi cwmnïau trên i gynnal a chadw'r fflyd a chyfarpar. Lleihau gwariant heb fod ar gyfaint. | £301 miliwn | £218 miliwn | 292,779m$^2$ [4] | 216,720m$^2$ |
| **Trydaneiddio a Pheiriannau Sefydlog** | Adnewyddu gwifrau llinell uwchben rhwng Paddington ac Airport Junction, ac adnewyddu'r system trawst dargludo llinell uwchben yn Nhwnnel Hafren. | £189 miliwn | £183 miliwn | 478 o gyfeintiau [4] | 605 o gyfeintiau |
| **Telathrebu** | Adnewyddu systemau gwybodaeth i gwsmeriaid yng ngorsafoedd Paddington a Reading, a diweddaru system fatri a system wefru'r rhwydwaith telathrebu. Cyfeintiau wedi cynyddu ar ôl diwygio camau'r cynllun adnewyddu. | £64 miliwn | £59 miliwn | 5,295 o gyfeintiau | 6,414 o gyfeintiau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwaith adnewyddu arall** | Gweithgareddau i wella diogelwch gweithwyr ar y trac, diogelwch, cynaliadwyedd amgylcheddol, y gallu i wrthsefyll y tywydd, ac adnewyddu eiddo masnachol ac eiddo'r gweithle. Roedd ffigur mis Mawrth 2024 yn cynnwys troshaen gyllidol oherwydd chwyddiant uwch nag y tybiwyd yn y Datganiad o'r Cyllid Sydd ar Gael ym mis Hydref 2022. Rydym wedi dileu'r droshaen hon trwy newid rhannau eraill o'r cynllun, sy'n newid cyfanswm cyffredinol y gwaith adnewyddu arall. | £136 miliwn | £178 miliwn | Amh. | Amh. |
| **Cynnal a chadw** | Rydym wedi ail-gydbwyso'n dull rheoli asedau er mwyn cynyddu'n buddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw. Mae hyn yn cefnogi gweithgareddau ychwanegol sy'n cyflenwi gwasanaethau trên mwy dibynadwy, ynghyd â mwy o waith cynnal a chadw trwm sy'n buddio ystod ehangach o asedau. Rydym wedi cynyddu'r adnoddau mewnol er mwyn lleihau is-gontractio. | £1,578 miliwn | £1,879 miliwn | Amh. | Amh. |

[3] SEU: Uned Gyfwerth â Signal (Signalling Equivalent Unit), mesur o gyfaint signalau.
[4] Ailddatganwyd i gywiro camgymeriad argraffu yng Nghynllun Cyflenwi Mawrth 2024.

## Incwm Cyfnod Rheoli 7

Daw ein hincwm o'r arwystlon a delir gan gwmnïau trên (teithwyr a chludo nwyddau) i ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd ac incwm o'n hasedau eiddo, fel incwm rhenti yn y gorsafoedd a reolir gennym. Hefyd, rydym yn derbyn oddeutu dau draean o'n hincwm trwy grantiau gan y llywodraeth, yn lle ffioedd mynediad, a gytunir trwy'r broses adolygu cyfnodoll.

Mae ein hincwm o godi am fynediad yn adlewyrchu'r rhestrau prisiau diweddaraf a'r rhagolygon traffig ar gyfer Cyfnod Rheoli 7, gan gynnwys cyflwyno cwmnïau trên mynediad agored newydd yn hwyrach yng Nghyfnod Rheoli 7. Mae ein rhagolygon hefyd yn adlewyrchu'r targed ar gyfer twf nifer y trenau cludo nwyddau yn ein cynllun.

Mae ein rhagolwg incwm eiddo wedi'i gysylltu'n agos â'n buddsoddiad yn ein portffolio eiddo, yn enwedig ein gwaith adnewyddu sy'n creu refeniw. Bwriadwn gefnogi ein busnes a chyfrannu at ein perfformiad ariannol drwy dyfu ein refeniw o fanwerthu, gan gynnwys gwella cyfleusterau yn y gorsafoedd a reolir gennym. Rydym hefyd yn gweithio gyda thrydydd partïon i wireddu incwm o gyfleoedd datblygu mewn perthynas â'n heiddo.

# Risgiau, ansicrwydd a chyfleoedd

Rydym yn wynebu llawer o risgiau, cyfleoedd ac ansicrwydd yn ystod Cyfnod Rheoli 7. Mae gennym broses rheoli risg ddiffiniedig sy'n ceisio gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd, a lleihau bygythiadau cymaint â phosibl, ac i roi sicrwydd o ran cyflenwi ein canlyniadau. Mae mesurau lliniaru manwl yn eu lle ar gyfer ein risgiau, a byddwn yn parhau i fod yn ystwyth ac yn hyblyg er mwyn ymateb i amodau sy'n newid yn ystod Cyfnod Rheoli 7.

Mae ein prif gyfleoedd, risgiau a mesurau lliniaru ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 wedi'u crynhoi fel y ganlyn:

| Disgrifiad | Enghreifftiau o fesurau lliniaru / camau gweithredu |
|---|---|
| **Diwygio'r diwydiant:** cyfle i wella cydweithredu yn y diwydiant. | Byddwn yn gweld Great British Railways (GBR) yn cael ei sefydlu yn ystod Cyfnod Rheoli 7, gan ddod â chwmnïau trên a gafaelwyd gan yr Adran Drafnidiaeth yn ôl dan berchnogaeth gyhoeddus, a rhoi un meddylfryd arweiniol ar gyfer trac a thrên.<br>Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i sefydlu GBR ac yn nodi'r cynnydd a wnaed ganddynt hyd yma – yn trosglwyddo cwmnïau trên i DfTO a chyflwyno'r Bil Rheilffyrdd i Senedd San Steffan ar ddiwedd 2025. Rydym yn gweithio'n agos â chwmnïau trên i gyflenwi buddion cynnar o'r gwaith integreiddio ac wedi sefydlu unedau busnes integredig, sy'n cynnwys cyd-dimau llwybr cwmnïau trên a Network Rail i ddatgloi gwelliannau.<br>Mae mentrau fel ein partneriaeth drafnidiaeth gyda TrC, ein cynghrair â GWR a "Thîm Paddington" yn cyflawni buddion cydweithredol i'r diwydiant cyn diwygio'r rheilffordd. |
| **Chwyddiant / prisiau mewnbwn:** mae chwyddiant cyffredinol a'n chwyddiant prisiau mewnbwn ein hun yn uwch nag y rhagdybiwyd yn y Datganiad o'r Cyllid sydd ar Gael ac yn parhau i roi pwysau ar ein cyllid. | Diweddariad cadarn o'r cynllun busnes bob chwarter sy'n cynnwys y weithrediaeth ranbarthol, gan gynnwys adolygiadau gan Brif Swyddog Cyllid y grŵp a'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Rheoli costau'n barhaus, defnyddio cyllid risg<br><br>O gofio'r heriau ariannol, mae ein cynllun diweddaraf yn cyfrif am ailddosbarthu ychydig o gyllid i'n rhanbarthau i gefnogi'r gwaith o gyflawni camau adnewyddu yn ystod Cyfnod Rheoli 7, gyda gwariant ychwanegol wedi'i dargedu at asedau sy'n gloddiau. |
| **Perfformiad trenau:** mae perfformiad trenau yn is nag a ragwelwyd. | Alinio a chydweithredu cadarn yn y diwydiant, a Strategaethau Cyd-berfformio ystyrlon, yn cydnabod bod gwella perfformiad yn gyfrifoldeb ar y diwydiant cyfan. |

| | |
|---|---|
| **Effeithlonrwydd:** cyfleoedd effeithlonrwydd heb eu gwireddu. | Olrhain effeithlonrwydd yn fanwl a'i llywodraethu, datblygu effeithlonrwydd yn barhaus. Cynllunio ar gyfer gorberfformio er mwyn ymdrin ag unrhyw ddiffygion. |
| **Gallu i wrthsefyll y tywydd/ newid hinsawdd:** mae digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn achosi lefelau uchel o darfu i wasanaethau, costau uchel ac effaith gwael ar enw da. | Buddsoddi mewn addasiadau er mwyn gwrthsefyll y tywydd a newid hinsawdd, ymateb yn gadarn i ddigwyddiadau. |
| **Diogelwch:** materion diogelwch annisgwyl yn codi yn ystod Cyfnod Rheoli 7. | Defnyddio fframwaith asesu risg tei bô diogelwch, cyfyngiadau gweithredol, cyllid risg i gynyddu gwariant lle bo angen. |
| **Y gallu i gyflenwi, gan gynnwys y risg o gyflenwyr mewn sefyllfa fregus yn ariannol:** oedi prosiectau a'r codiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys y prosiectau technoleg / signalu cymhleth. | Adolygu'r gallu i gyflenwi, gor-gynllunio i danddefnyddio cyllid cyn lleied â phosibl. Defnyddio model cyflawni cyfalaf Client Deallus i gadw costau a gwaith cyflenwi dan reolaeth. |
| **Incwm:** lefelau incwm is (incwm codi tâl ac incwm eiddo) oherwydd llai o wasanaethau a llai o ddefnyddwyr. | Rhagdybiaethau incwm i ddefnyddio'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer niferoedd teithwyr a chyfeintiau traffig, defnyddio cyllid risg. |
| **HS2:** tarfu oherwydd adeiladu cyfnewidfa HS2 / prif linell Great Western yn Old Oak Common. | Cynlluniau wrth gefn cadarn, datblygu amserlen traws-ddiwydiannol, mesurau lliniaru seilwaith a gwasanaethau (wedi'u hariannu gan HS2 Ltd), ymateb yn gadarn i ddigwyddiadau. |
| **Lleihau carbon:** methu â chyrraedd ein targedau o ran lleihau carbon. | Ymyraethau ynni i leihau defnydd.<br>Trawsnewid 100 % fflyd cerbydau ffordd a pheiriannau i rai sero allyriadau.<br>Caffael ynni mewn ffordd arall er mwyn datgarboneiddio. |
| **Cynaliadwyedd asedau:** yr angen am asedau dibynadwy i gefnogi perfformiad gwasanaethau trên. | Gwaith adnewyddu asedau ar sail risg, fel buddsoddi mewn gwella cydnerthedd y llinell uwchben. Buddsoddi mewn gwaith addasu asedau i wrthsefyll y tywydd a newid hinsawdd. |

# Gwaith cyflenwi yn ystod y flwyddyn nesaf (2026/27)

## Crynodeb o'n targedau ar gyfer Blwyddyn 3 Cyfnod Rheoli 7

Mae ein targedau 2026/27 yn erbyn ein mesurau llwyddiant rheoleiddiol a chanlyniadau allweddol eraill wedi'u nodi isod.  Byddwn yn monitro cyflawniad yn eu herbyn drwy gydol y flwyddyn trwy ein gwaith monitro busnes a monitro ar lefel cyfarwyddwyr. Byddwn hefyd yn cytuno ar gardiau sgorio er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion, gan roi ffocws tactegol i feysydd allweddol yn ystod y flwyddyn nesaf, a phennu ystodau targedau yn gysylltiedig â'n tâl ar sail perfformiad. Lle y bo'n briodol, gallai rhai o dargedau'r cardiau sgorio anelu at ragori ar ein llinell sylfaen rheoleiddiol, neu osod llwybr i ymadfer perfformiad sy'n is na'r llinellau sylfaen.

**Tabl 2:** Targedau canlyniadau 2026/27.

| Thema strategol | Mesur | Targed 2026/27 |
|---|---|---|
| Diogelwch | Lleihau Risg o Ddamwain Trên | 95 % |
| | Marwolaethau ac Anafiadau a Bwysolwyd yn y Gweithlu | 0.066 |
| | Atebolrwydd Personol am Ddiogelwch | 120 |
| Cyflenwi Gwasanaethau Trên | Trenau i Deithwyr Ar Amser o Fewn 3 [5 6] | 79.5 % |
| | Canslo Trenau i Deithwyr [5 6] | 3.7 % |
| | Canslo Trenau Cludo Nwyddau [5] | 1.4 % |
| | Twf yn Nifer Trenau Cludo Nwyddau (km tunnell net) [5] | -7.5 % |
| Cwsmeriaid a chymunedau | Boddhad teithwyr (RCXS) | 88.9 % |
| Effeithlonrwydd | Effeithlonrwydd gwariant gweithredol [5] | £32 miliwn |
| | Effeithlonrwydd gwariant cyfalaf [5] | £67 miliwn |
| | Mesur Perfformiad Ariannol - gwariant gweithredol ac incwm [5] | £0 miliwn |
| | Mesur Perfformiad Ariannol – adnewyddu [5] | £0 miliwn |
| Twf cynaliadwy | Lleihad allyriadau carbon – Cwmpas 1 a 2 [5] | -9 % |
| | Ennill unedau bioamrywiaeth net [5] | 2 % |
| Pobl | Ymgysylltu â chyflogeion | 62 % |

[5] Mesurau llwyddiant rheoleiddiol â thargedau wedi'u pennu ym mhenderfyniad terfynol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.
[6] Penderfyniad terfynol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn gosod targedau perfformiad trenau i deithwyr ar gyfer dwy flwyddyn gyntaf Cyfnod Rheoli 7 a thrywyddau dangosol ar gyfer Blynyddoedd 3-5.  Cadarnhawyd y targedau hyn gan adolygiad rheoleiddiol a ailosododd mesurau perfformiad trenau i deithwyr ar gyfer Blynyddoedd 3-5 Cyfnod Rheoli 7. Hefyd, cadarnhaodd yr adolygiad "Ar Amser o Fewn 3" fel y prif fesur prydlondeb.

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob thema strategol

### Diogelwch

Cryfhau ein sicrwydd a moderneiddio diogelwch gweithwyr ar y trac trwy dechnoleg fel Podflo, a defnyddio'r system signalau i amddiffyn gwaith peirianyddol.

### Cyflenwi gwasanaethau trên

Cyflawni'n ddiogel gwelliannau i berfformiad gwasanaethau trên ein teithwyr trwy gydweithredu'n agosach â'n cydweithwyr yn y cwmnïau trenau i deithwyr a threnau cludo nwyddau o fewn y model system gyfan. Defnyddio mwy o dechnoleg i gysylltu'r gwaith o gynllunio mynediad ar gyfer gwaith peirianyddol â'r system signalau.

### Cwsmeriaid a chymunedau

Byddwn yn gymydog da, gan gwblhau pob cais am wasanaeth gan gymydog i'r rheilffordd cyn pen 20 o ddiwrnodau ac yn parhau i gefnogi rheilffyrdd cymunedol. Byddwn yn gwella profiad y teithwyr yn yr orsafoedd a reolir gennym trwy welliannau i wybodaeth.

### Effeithiolrwydd

Cyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach gwerth £99 miliwn, gan adeiladu ar y gwaith effeithiolrwydd llwyddiannus yn 2025/26. Byddwn yn parhau i ddatblygu integreiddio rhwng trac a thrên, gan sefydlu sylfeini cryf i GBR trwy gyflawni rhaglen datganoli ehangach, yn cefnogi diwygio'r rheilffyrdd yng Nghymru, ac integreiddio â GWR.

### Twf cynaliadwy

Byddwn yn parhau i roi mentrau ar waith i leihau ein defnydd o ynni ac i leihau ein hallyriadau carbon. Byddwn yn gwneud cynnydd ar ein mentrau i wrthsefyll y tywydd. Byddwn yn cyflawni gwelliannau ar draws ein rhwydwaith sy'n cefnogi twf economaidd trwy brosiectau fel Metro West 1b, Cowley, Rhydychen, gorsafoedd "Burns" de Cymru, Mynediad i Bawb, a HS2 yn Old Oak Common.

### Pobl

Byddwn yn cryfhau ein diwylliant o ddiogelwch corfforol a seicolegol, gan alluogi'n pobl i wneud eu gwaith gorau trwy arweinyddiaeth weladwy, dolenni dysgu cyflymach, strategaeth iechyd meddwl a strategaeth atal aflonyddu rhywiol.

# Atodiad

## A. Canlyniadau Cyfnod Rheoli 7

Mae Tabl A1 isod yn nodi'r canlyniadau allweddol a gynlluniwyd gennym ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 yn ôl pob thema strategol, gan gynnwys ein mesurau llwyddiant Cyfnod Rheoli 7 wedi'u rheoleiddio, ynghyd â mesurau canlyniadau allweddol eraill. Mae'r tabl yn nodi'r safle a ragwelir gennym ar gyfer diwedd Cyfnod Rheoli 7 o gymharu â'r rhagolwg yn ein cyhoeddiad blaenorol ar y Cynllun Cyflenwi.

**Tabl A1.** Canlyniadau Cyfnod Rheoli 7 yn ôl thema strategol.

| Thema strategol | Mesur | Diwedd Cyfnod Rheoli 7 (Cynllun Cyflenwi Mawrth 2024) | Diwedd Cyfnod Rheoli 7 (Cynllun Cyflenwi Mawrth 2026) |
|---|---|---|---|
| **Diogelwch** | Lleihau Risg o Ddamwain Trên | 95 % | 95 % |
| | Marwolaethau ac Anafiadau a Bwysolwyd yn y Gweithlu | 0.064 | 0.059 |
| | Atebolrwydd Personol am Ddiogelwch | 115 | 115 |
| **Cyflenwi Gwasanaethau Trên** | Trenau i Deithwyr Ar Amser o Fewn 3 [7 8] | 74.8 % - 85.1 % | 80.0 % |
| | Canslo Trenau i Deithwyr [7 8] | 3.3 % - 4.3 % | 3.7 % |
| | Canslo Trenau Cludo Nwyddau [7] | 1.6 % | 1.4 % |
| | Twf yn Nifer Trenau Cludo Nwyddau (km tunnell net) [7] | 6.9 % | 0.8 % |
| | Mynegai Cynaliadwyedd Cyfansawdd [7] | -2.0 % | -2.9 % |
| **Cwsmeriaid a chymunedau** | Boddhad teithwyr (RCXS) [9] | 7.86 | 89.5 % |
| **Effeithlonrwydd** | Effeithlonrwydd gwariant gweithredol [7] | £175 miliwn | £176 miliwn |
| | Effeithlonrwydd gwariant cyfalaf [7] | £319 miliwn | £355 miliwn |
| | Mesur Perfformiad Ariannol - gwariant gweithredol ac incwm [7] | £0 miliwn | £0 miliwn |
| | Mesur Perfformiad Ariannol - adnewyddu [7] | £0 miliwn | £0 miliwn |
| **Twf cynaliadwy** | Lleihad allyriadau carbon – Cwmpas 1 a 2 [7] | -21 % | -21 % |
| | Ennill unedau bioamrywiaeth net [7] | 4 % | 4 % |
| **Pobl** | Ymgysylltu â chyflogeion | 51 % | 64 % |

[7] Mesurau llwyddiant rheoleiddiol â thargedau wedi'u pennu ym mhenderfyniad terfynol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.
[8] Penderfyniad terfynol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn gosod targedau perfformiad trenau i deithwyr ar gyfer dwy flwyddyn gyntaf Cyfnod Rheoli 7 a thrywyddau dangosol ar gyfer Blynyddoedd 3-5. Cadarnhawyd y targedau hyn gan adolygiad rheoleiddiol a ailosododd mesurau perfformiad trenau i deithwyr ar gyfer Blynyddoedd 3-5 Cyfnod Rheoli 7. Hefyd, cadarnhaodd yr adolygiad "Ar Amser o Fewn 3" fel y prif fesur prydlondeb. Mae ffigurau ymhlyg Ar Amser o fewn 3 CC24 yn deillio o dargedau Ar Amser CC24.
[9] Newidiwyd yr arolwg a ddefnyddiwyd i asesu boddhad teithwyr o Wavelength i RCXS a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y rhagolygon ar gyfer blynyddoedd 2-5 o'r Cyfnod Rheoli.

## B. Crynodeb ariannol Cyfnod Rheoli 7

### Gwariant Cyfnod Rheoli 7

**Tabl B1.** Gwariant Cyfnod Rheoli 7 (Diweddariad Mawrth 2026 i Gynllun Cyflenwi Cyfnod Rheoli 7 a Chynllun Cyflenwi Cyfnod Rheoli 7 Mawrth 2024).

| | Cynllun Cyflenwi Mawrth 2026 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£ miliwn mewn prisiau arian parod** | 2024/25 | 2025/26[10] | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7 |
| Gweithrediadau a chymorth | 186 | 198 | 205 | 181 | 181 | 952 |
| Cynnal a chadw | 367 | 387 | 378 | 371 | 376 | 1,879 |
| Adnewyddu (gan gynnwys gwariant cyfalaf arall) | 559 | 501 | 472 | 485 | 448 | 2,465 |
| Cyllid risg pris mewnbwn | 0 | 0 | 0 | 14 | 25 | 39 |
| Costau a chyfraddau'r diwydiant [11] | 42 | 43 | 52 | 53 | 54 | 245 |
| Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T) | 73 | 62 | 68 | 65 | 67 | 334 |
| Gwariant dynodedig [12] | 180 | 192 | 232 | 265 | 287 | 1,157 |
| **Cyfanswm gwariant (heblaw EC4T)** | **1,334** | **1,322** | **1,339** | **1,370** | **1,372** | **6,737** |
| **Cyfanswm gwariant** | **1,407** | **1,384** | **1,407** | **1,435** | **1,439** | **7,071** |

| | Cynllun Cyflenwi Mawrth 2024 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£ miliwn mewn prisiau arian parod** | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7 |
| Gweithrediadau a chymorth | 188 | 178 | 178 | 176 | 178 | 898 |
| Cynnal a chadw | 333 | 312 | 308 | 306 | 320 | 1,578 |
| Adnewyddu (gan gynnwys gwariant cyfalaf arall) | 527 | 542 | 539 | 483 | 464 | 2,556 |
| Cyllid risg pris mewnbwn | 0 | 7 | 36 | 77 | 93 | 213 |
| Costau a chyfraddau'r diwydiant [11] | 43 | 43 | 49 | 50 | 51 | 236 |
| Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T) | 70 | 65 | 70 | 70 | 71 | 346 |
| Gwariant dynodedig [12] | 224 | 234 | 236 | 235 | 238 | 1,166 |
| **Cyfanswm gwariant (heblaw EC4T)** | **1,315** | **1,316** | **1,346** | **1,327** | **1,345** | **6,648** |
| **Cyfanswm gwariant** | **1,385** | **1,381** | **1,416** | **1,397** | **1,415** | **6,995** |

[10] Mae gwariant Blwyddyn 2 Cyfnod Rheoli 7 yn seiliedig ar ragolwg mis Chwefror 2026.
[11] Mae costau a chyfraddau'r diwydiant yn cynnwys Cyfraddau Cumulo, tanysgrifiad i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, a chymhorthdal y Rail Delivery Group.
[12] Costau swyddogaethau canolog a dynodwyd i'r rhanbarthau.

**Incwm Cyfnod Rheoli 7**

**Tabl B2.** Incwm Cyfnod Rheoli 7 (Diweddariad Mawrth 2026 i Gynllun Cyflenwi Cyfnod Rheoli 7 a Chynllun Cyflenwi Cyfnod Rheoli 7 Mawrth 2024).


| | Cynllun Cyflenwi Mawrth 2026 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£ miliwn mewn prisiau arian parod** | 2024/25 | 2025/26[13] | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7 |
| Incwm codi tâl am fynediad [14] | -303 | -306 | -313 | -333 | -329 | -1,584 |
| Incwm masnachol ac incwm arall | -144 | -164 | -155 | -161 | -171 | -795 |
| Grant rhwydwaith | -886 | -831 | -866 | -861 | -856 | -4,300 |
| Costau Atodlen 4 ac Atodlen 8 net | 9 | 10 | 10 | 3 | 3 | 35 |
| Incwm dynodedig | -10 | -31 | -16 | -18 | -19 | -93 |
| Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T) | -73 | -62 | -68 | -65 | -67 | -334 |
| Cyfanswm yr incwm (heblaw EC4T) | -1,334 | -1,322 | -1,339 | -1,370 | -1,372 | -6,737 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **-1,407** | **-1,384** | **-1,407** | **-1,435** | **-1,439** | **-7,071** |

| | Cynllun Cyflenwi Mawrth 2024 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£ miliwn mewn prisiau arian parod** | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Cyfanswm Cyfnod Rheoli 7 |
| Incwm codi tâl am fynediad [14] | -306 | -310 | -312 | -329 | -324 | -1,580 |
| Incwm masnachol ac incwm arall | -144 | -154 | -158 | -162 | -166 | -784 |
| Grant rhwydwaith | -880 | -840 | -864 | -822 | -841 | -4,247 |
| Costau Atodlen 4 ac Atodlen 8 net | 19 | 3 | 3 | 3 | 3 | 31 |
| Incwm dynodedig | -3 | -16 | -16 | -16 | -17 | -67 |
| Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T) | -70 | -65 | -70 | -70 | -71 | -346 |
| Cyfanswm yr incwm (heblaw EC4T) | -1,315 | -1,316 | -1,346 | -1,327 | -1,345 | -6,648 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **-1,385** | **-1,381** | **-1,416** | **-1,397** | **-1,415** | **-6,995** |

[13] Mae incwm Blwyddyn 2 Cyfnod Rheoli 7 yn seiliedig ar ragolwg mis Chwefror 2026.
[14] Mae incwm codi tâl yn cynnwys mynediad sefydlog i'r trac ar gyfer y cwmnïau trenau i deithwyr a threnau cludo nwyddau, mynediad amrywiol i'r trac, a thaliadau defnyddio mynediad i drydan.

Cymru a Gorllewin Lloegr

NetworkRail



**Network Rail Limited**

Swyddfa Gyffredinol Waterloo, Llundain, Y Deyrnas Unedig, SE1 8SW

Gwefan: www.networkrail.co.uk

Rhif cwmni: 04402220